# Polisi Dysgu ac Addysgu

# *Policy for Learning and Teaching*

**Diweddarwyd / *Updated*: 09/2025**

**Adolygiad Nesaf / *Next Review*: 09/2026**

**Ysgol Gymraeg Y Fenni**
Heol Dewi Sant | St. David's Road
Y Fenni | Abergavenny
Sir Fynwy | Monmouthshire
NP7 6HF

**Ffôn | Tel:** 01873 852388
**Ebost | Email:** ysgolgymraegyfenni@monmouthshire.gov.uk
**Gwefan | Website:** www.ysgolyfenni.co.uk

**Cyflwyniad**

Yn Ysgol Gymraeg Y Fenni rydym yn credu yn y cysyniad o ddysgu dilys gydol oes, rydym yn credu bod dysgu yn broses barhaus i oedolion a phlant. Credwn y dylai dysgu fod yn broses werth chweil ac yn bleserus i bawb; dylai fod yn hwyl, yn gynhwysol ac yn ddiddorol. Trwy ein haddysgu rydym yn darparu'r sgiliau, y wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r gwerthoedd i'r plant a fydd yn eu galluogi i ddod yn ddinasyddion gwybodus a moesegol. Credwn fod profiadau dysgu cyfoethog yn helpu i danio dychymyg a datgloi potensial. Ein nod yw meithrin dysgwyr hyderus, annibynnol sydd â chariad gydol oes at ddysgu. Mae gennym y disgwyliadau uchaf o bob plentyn ac mae plant yn cael eu hysbrydoli a'u herio i ragori a symud ymlaen ar hyd eu teithiau dysgu unigol. Mae ein cwricwlwm yn canolbwyntio ar ddatblygu dealltwriaeth o'n treftadaeth, ein diwylliant a'n hardal leol. Mae ymdeimlad cryf o hunaniaeth Gymreig yn sail i'n harferion addysgu a dysgu, gan helpu dysgwyr i gysylltu â'u hiaith a'u hunaniaeth leol.

Ein nod yw darparu cwricwlwm eang a chytbwys gyda phrofiadau o ansawdd uchel sy'n ysgogi ac yn ennyn diddordeb dysgwyr. Credwn hefyd y dylai'r Pedwar Diben bod yn ganolog i bob gweithgaredd dysgu ag addysgu sy'n digwydd yn ein hysgol ni. Mae Pedwar Diben y cwricwlwm, fel yr amlinellir yn Dyfodol Llwyddiannus, wedi bod yn sail i'r holl waith o gynllunio a datblygu Cwricwlwm i Gymru 2022. Mae ein 'cwricwlwm' yn cynnwys yr holl brofiadau dysgu a gweithgareddau asesu a gynlluniwyd er mwyn cyflawni'r Pedwar Diben, sef datblygu plant a phobl ifanc i fod yn:


- ddysgwyr uchelgeisiol, galluog sy'n barod i ddysgu drwy gydol eu hoes
- gyfranwyr mentrus, creadigol sy'n barod i chwarae eu rhan yn llawn yn eu bywyd a'u gwaith
- ddinasyddion egwyddorol, gwybodus Cymru a'r byd
- unigolion iach, hyderus sy'n barod i fyw bywyd gan wireddu eu dyheadau fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas.

**Nod ac Amcanion**

Yn ein hysgol rydyn ni'n darparu awyrgylch gyfoethog ac amrywiol sy'n caniatáu i blant ddatblygu eu sgiliau a'u gallu yn llawn. Trwy gyfrwng ein haddysgu rydyn ni'n bwriadu

- galluogi'r plant i ddod yn ddysgwyr hyderus, uchelgeisiol, dyfeisgar, ymchwiliol ac annibynnol.
- ddatblygu ac annog meddwl medrus.
- modelu nad yw gwneud camgymeriadau yn beth ddrwg ond yn ffordd o ddysgu. Annog y plant i gymryd risgiau ac i fod yn agored i bethau newydd.
- hybu hunan hyder plant a dathlu mai fi yw fi a deall bod eu llais yn bwysig.
- datblygu hunan barch plant, ac annog y plant i barchu eraill, a'u syniadau, eu hagweddau, eu gwerthoedd a'u teimladau.
- dangos parch tuag at ddiwylliannau eraill, a hybu agwedd gadarnhaol tuag at eraill.
- galluogi'r plant i ddeall eu cymuned a'u cynorthwyo i deimlo'n rhan werthfawr o'r gymuned honno.
- cynorthwyo'r plant i dyfu'n ddinasyddion egwyddorol, dibynadwy, annibynnol a chadarnhaol.
- datblygu plant iach sy'n deall pwysigrwydd cadw'n heini ac sy'n ymwybodol o strategaethau meddylgarwch i'w helpu i ddelio gyda sefyllfaoedd heriol.
- galluogi'r plant i feddwl yn greadigol ac i ddatblygu eu creadigrwydd drwy berfformio, cyflawni gwaith celf ac yn y blaen.

Mae'r polisi yn cydnabod pwysigrwydd a gwerth yr 12 egwyddor addysgu sy'n sail i gwricwlwm newydd Cymru.




**Addysgu a Dysgu Llwyddiannus**

Rydyn ni'n cydnabod bod pobl yn dysgu mewn ffyrdd gwahanol, a gwelwn fod angen datblygu strategaethau sy'n caniatáu i blant ddysgu mewn ffyrdd sy'n gweithio iddynt. Mae'r seicolegwr Howard Gardner yn nodi saith prif adran o allu: ieithyddol, mathemategol/rhesymegol, gweledol/gofodol, cinesthetig, cerddorol, rhyngbersonol/gweithio mewn grŵp, a rhyngbersonol/reflective. Rydyn ni'n ystyried hyn wrth gynllunio ein gwersi a'n harddull addysgu.

Rydyn ni’n rhoi cyfle i blant dysgu mewn ffyrdd gwahanol, er enghraifft:

- archwilio a datrys problemau
- ymchwilio a darganfod
- gwaith grŵp
- gwaith parau
- gweithio’n annibynnol
- gweithio fel dosbarth cyfan
- gofyn ac ateb cwestiynau
- defnyddio offer TGCh
- gwaith maes ac ymweliadau addysgiadol
- gweithgareddau creadigol
- gwylio clipiau ac ymateb i gerddoriaeth neu ddeunydd ar dâp
- trafodaethau, chwarae rôl a chyflwyniadau llafar
- dylunio a chreu pethau
- cymryd rhan mewn gweithgareddau athletaidd neu gorfforol

Wrth addysgu rydyn ni’n canolbwyntio ar ysgogi plant, ac adeiladu ar eu sgiliau, eu gwybodaeth a’u dealltwriaeth o’r cwricwlwm. Rydyn ni’n defnyddio cynlluniau cwricwlwm yr ysgol yn arweiniad i’n haddysgu. Mae’r cynlluniau yn gosod y manylion am yr hyn sydd i’w addysgu i bob blwyddyn ysgol a Cham Cynnydd. Mae plant yn dysgu o brofiad uniongyrchol, tu fewn a thu allan i’r dosbarth.

Rydyn ni’n selio’n haddysgu ar ein gwybodaeth o lefel cyrhaeddiad y plant. Ein prif ffocws yw datblygu sgiliau a gwybodaeth y plant ymhellach, ymestyn pob plentyn ac yn eu haddysgu am bwysigrwydd datblygu meddylfryd twf. Rydyn ni’n ymdrechu i sicrhau bod y tasgau yn addas i lefel gallu’r plant unigol. Mae gweithgareddau a chysyniadau wedi gwahaniaethu yn ôl angen i sicrhau bod pob dysgwr wedi eu cefnogi a’i ymestyn. Wrth gynllunio gwaith ar gyfer y plant sydd ag anghenion ychwanegol rydyn ni’n talu sylw priodol i’r wybodaeth a’r targedau a osodwyd allan yn y Cynlluniau Addysgu Personol/Proffil Un Tudalen. Mae gennym ddisgwyliadau uchel o’r holl blant, a chredwn fod eu gwaith yma yn Ysgol Gymraeg Y Fenni o’r safon uchaf posibl.

Ein staff addysgu yw ein hadnodd dysgu ac addysgu mwyaf dylanwadol. Credwn fod addysgu effeithiol yn cynnwys yr elfennau a restrir isod:

Cynllunio a pharatoi effeithiol gydag amcanion dysgu clir wedi cynllunio ar y cyd.
Gwybodaeth, dealltwriaeth ac eglurder y pwnc.
Creu amgylchedd cefnogol.
Gwneud y mwyaf o'r cyfle i ddysgu.
Ansawdd y cyfarwyddyd
Rheoli ystafell ddosbarth (Gweler y polisi rheoli ymddygiad)
Datblygiad proffesiynol
Asesu ac Adborth (Gweler y polisi asesu)

**Asesu ac Adborth**

Gosodwn dargedau academaidd ar gyfer y plant ym mhob blwyddyn academaidd ac rydyn ni’n rhannu’r targedau yma gyda’r plant a’u rhieni. Rydyn ni’n adolygu cynnydd pob plentyn yn rheolaidd drwy gydol y flwyddyn academaidd a gosodwn dargedau newydd pan fo’r angen. Defnyddir ‘mini plenaries’ i ailgyfeirio neu ailffocysu’r wers os oes angen. Rydym yn gwerthuso pob gwers gan ganolbwyntio ar ddilyniant sgiliau disgyblion, fel y gallwn addasu ein haddysgu yn y dyfodol.

**Cynllunio a pharatoi effeithiol gydag amcanion dysgu clir wedi cynllunio ar y cyd.**

Rydym yn cynllunio gwersi gyda meini prawf llwyddiant clir. Daw’r amcanion o Gwricwlwm 2022. Mae ein cynlluniau gwers yn cynnwys gwybodaeth am y tasgau sy'n mynd i gael eu hasesu ac rydym yn gwerthuso'r gwersi ar y cynllun pythefnosol. Yna defnyddir y gwerthusiadau hyn i gynllunio'r pythefnos nesaf o waith. Rydym yn cyflwyno gwybodaeth mewn camau bach ac yn adeiladu ar wybodaeth flaenorol. Cymhwyswn ein dealltwriaeth o'r cof gweithredol a'r cof hirdymor wrth gynllunio. Rydym yn sicrhau bod plant yn cael y cyfle i ymarfer yn ddyddiol i osgoi gorlwytho gwybyddol a chefnogi trosglwyddo gwybodaeth i gof tymor hir. Cyflwynir deunydd newydd fesul cam, gan gysylltu syniadau newydd yn benodol â gwybodaeth bresennol. Sicrhawn fod unrhyw wersi, neu ddysgu yn berthnasol i ddilyniant ehangach gwaith, ac rydym yn glir ynghylch yr hyn a ddisgwylir ar ddiwedd y wers ac erbyn diwedd yr uned waith - strategaeth cynllunio yn ôl.

**Gwybodaeth, dealltwriaeth ac eglurder y pwnc**

Rydym yn ymdrechu i gael cynnwys a gwybodaeth dwfn a rhugl am y cwricwlwm. Mae hefyd yn bwysig bod gennym wybodaeth am feddwl a chamsyniadau myfyrwyr fel y gallwn gyflwyno gwersi yn effeithiol.

**Ansawdd y cyfarwyddyd a gwneud y mwyaf o'r cyfle i ddysgu**

Mae ymchwil yn pwysleisio budd metawybyddiaeth addysgu penodol i gefnogi dysgu annibynnol. Mae cwestiynu yn un o'r arfau dysgu mwyaf effeithiol sydd gan athro ar gyfer cynyddu her a dyfnhau gwybodaeth ac mae'n annog datblygiad sgemata mwy cymhleth. Rydyn ni'n dechrau gyda chwestiynau lefel isel (beth? pryd? pwy?) cyn symud ymlaen at gwestiynau lefel uwch myfyriol a gwerthusol (pam? Sut?) sy’n annog disgyblion i ddadansoddi, cymharu â chyfiawnhau. Rydym yn darparu digon o amser meddwl ac yn cynllunio deialog bwrpasol o ansawdd uchel i annog disgyblion i feddwl yn ddwfn a dyfnhau dealltwriaeth. Wrth gyflwyno testun newydd rydyn ni'n darparu fersiwn syml neu dasg wedi scaffald i'r plant. Pan mae gwybodaeth wedi gwreiddio, bydd angen llai cefnogaeth / scaffald. Gwahaniaethir y sgaffaldiau i gwrdd ag anghenion pob disgybl.Defnyddir enghreifftiau yn aml i sicrhau dealltwriaeth disgyblion. Trwy sicrhau ein bod yn modelu, yn sgaffaldio ac yn cynllunio cwestiynau'n ofalus, rydym yn sicrhau bod

gwybodaeth yn cael ei gwreiddio ac y gellir ei hadalw'n gywir ac yn awtomatig. Er mwyn i blant fod yn wirioneddol annibynnol, mae angen digon o wybodaeth flaenorol arnynt ac arfer effeithiol dan arweiniad yn gyntaf. Credwn fod dysgu dwfn a metawybyddiaeth yn digwydd pan fydd plant yn golygu ac yn ailddrafftio eu gwaith. Mae hon yn broses bwysig a rhaid rhoi amser a chyfleoedd i blant wneud hyn yn effeithiol.

**Creu amgylchedd cefnogol.**

Mae pob aelod o'r tîm addysgu yn Ysgol Gymraeg Y Fenni yn gwneud ymdrech arbennig i feithrin perthynas dda gyda phob plentyn. Rydyn ni'n trin y plant yn garedig a gyda pharch. Mae'r holl athrawon yn dilyn polisi'r ysgol ynglŷn â disgyblaeth a rheoli dosbarth. Gyda'r plant rydyn ni'n cytuno ar ac yn gosod còd ymddygiad y dosbarth. Disgwyliwn i bob plentyn i gadw at hyn er mwyn hybu'r awyrgylch dysgu gorau posibl i bawb. Rydyn ni'n canmol ymdrechion y plant, a thrwy hynny rydyn ni'n cynorthwyo i adeiladu agweddau cadarnhaol tuag at ddysgu yn gyffredinol.

Rydyn ni'n mynnu cael trefn ac ymddygiad da bob amser. Pan fydd plant yn amhriodol byddwn yn dilyn camau a amlinellir yn y polisi ymddygiad er mwyn delio â'r mater. Rydyn ni'n sicrhau bod tasg a gweithgaredd yn ddiogel. Pan fyddwn ni'n trefnu i fynd â'r plant ar ymweliad oddi ar dir yr ysgol rydyn ni'n rhoi gwybod i rieni ac yn cwblhau asesiad risg ar Evolve.

Defnyddiwn gynorthwywyr dosbarth a help oedolion eraill pan fydd hynny'n bosibl. Yn aml, maent yn gweithio gyda phlant unigol ac weithiau gyda grwpiau bychain. Mae'r cynorthwywyr hefyd yn ganolog i'r broses addysgu ar lawr y dosbarth.

Mae ein hystafelloedd dosbarth yn cynnig awyrgylch dysgu atyniadol. Dylai arddangosfeydd helpu i gofio, ysgogi meddwl pellach, rhoi gwybodaeth newydd, gwneud cysylltiadau, dathlu cyflawniad, atgoffa plant o reolau a thargedau ac ysgogi plant tuag at ddysgu pellach. Rydyn ni'n gosod arddangosfeydd newydd pryd bô'r angen a sicrhawn fod yr ystafell ddosbarth yn adlewyrchu'r pynciau a astudir gan y plant. Rydyn ni'n sicrhau bod cyfle gan bob plentyn i arddangos eu gwaith gorau rywbryd yn ystod y flwyddyn. Rydyn hefyd yn annog y plant i ateb y cwestiynau rhyngweithiol ar yr arddangosfeydd. Mae ystod o eiriaduron a llyfrau ffeithiol a ffuglen ym mhob ystafell ddosbarth, ac arddangosfeydd sy'n ymwneud â llythrennedd a rhifedd.

Credwn fod amgylchfyd ysgogol yn creu hinsawdd dda ar gyfer dysgu, a bod ystafell ddosbarth cyffrous yn annog defnydd annibynnol o'r adnoddau a gwaith o safon uchel.

**Datblygiad Proffesiynol**

Mae ein holl staff addysgu yn ystyried eu cryfderau a'u meysydd i wella ac yn cynllunio eu datblygiad proffesiynol yn unol â hyn. Rydyn ni'n gwneud y cyfan sydd o fewn ein gallu i ddatblygu sgiliau ein staff addysgu, fel y gallant wella eu perfformiad yn barhaus.

Rydyn ni'n cynnal ein haddysgu a'n dysgu mewn awyrgylch o barch ac ymddiriedaeth.

**Egwyddorion ar Waith**

Yn llyfryn Tom Sherrington Rosenshine's Principles in Action (2019) mae'n rhoi esboniad rhagorol o Egwyddorion Ar Waith Rosenshine mewn ffordd glir a syml. Rydyn yn dilyn y strategaethau yma wrth addysgu.

1. Dechrau gwers gydag adolygiad byr o ddysgu blaenorol
2. Cyflwyno deunydd newydd fesul cam gydag ymarfer y myfyriwr ar ôl pob cam
3. Cyfyngu ar faint o ddeunydd y mae myfyriwr yn ei dderbyn ar un adeg
4. Rhoi cyfarwyddiadau ac esboniadau clir a manwl
5. Gofyn nifer fawr o gwestiynau a gwiriwch am ddealltwriaeth
6. Darparu lefel uchel o ymarfer gweithredol i bob myfyriwr
7. Arwain y myfyrwyr wrth iddynt ddechrau ymarfer
8. Meddwl yn uchel a modelu camau
9. Darparu modelau o broblemau a weithiwyd allan
10. Gofyn i'r myfyrwyr egluro beth roedden nhw wedi'i ddysgu
11. Gwirio ymatebion yr holl fyfyrwyr
12. Darparu adborth systematig a chywiriadau
13. Defnyddio fwy o amser i roi esboniadau
14. Darparu lawer o enghreifftiau
15. Ailddysgu deunydd pan fo angen
16. Paratoi myfyrwyr ar gyfer ymarfer annibynnol
17. Monitro myfyrwyr pan fyddant yn dechrau ymarfer annibynnol

**Rhinweddau**

Fel ysgol cytunwyd i ddatblygu 5 rhinwedd penodol yn y plant. Y rhinweddau cytunwyd arni yw :

**Annibyniaeth** - Gallu ffeindio offer fy hun, Datblygu sgiliau sylfaenol, Gallu gweithio gydag eraill, Dilyn cyfarwyddiadau, Gallu aros ar dasg, 3 cyn fi.
**Gwytnwch** - Dathlu a derbyn camgymeriadau, Trio eto a thrio pethau newydd, Dyfal donc a dyr y garreg, Datblygu meddwl medrus, Derbyn heriau.
**Gallu i ddarllen** - Meistroli sgiliau darllen sylfaenol, Cael pleser allan o ddarllen, Defnyddio darllen i ddeall y byd o gwmpas, Ehangu dychymyg, Awydd i ddarllen ystod eang o ddeunyddiau darllen.
**Hunan - Werth** - Mynegi fy hun mewn ffordd hyderus, Deall bod fy llais yn bwysig, Defnyddio iaith bositif wrth siarad am fy hun, Dathlu mai fi yw fi, Adnabod fy llwyddiannau personol ac academaidd.
**Barod i** - Barod i wneud fy ngorau glas, Barod i siarad Cymraeg, Barod i feddwl cyn gwneud, Barod i rannu a gwrando, Barod i fwynhau, Barod i helpu.

Fel ysgol rydym yn dathlu a hyrwyddo'r rhinweddau o fewn tasgau, yn cyfeirio atynt yn ein gwersi a sicrhau dealltwriaeth gan ddysgwyr a staff. Rydym yn sicrhau bod dysgwyr yn medru siarad am y rhinweddau a rhoi enghreifftiau ohonynt.

**Rôl y Llywodraethwyr**

Mae ein llywodraethwyr yn cynorthwyo, yn monitro ac yn adolygu'r polisi dysgu ac addysgu. Maent yn:

- cefnogi'r defnydd addas o strategaethau addysgu wrth ddosrannu adnoddau'n effeithiol;
- sicrhau bod adeiladau a thir yr ysgol yn cael eu defnyddio yn y ffordd fwyaf effeithiol er mwyn cefnogi'r dysgu a'r addysgu;
- monitro'r strategaethau addysgu yn wyneb rheolau iechyd a diogelwch;
- monitro'r effeithiolrwydd y strategaethau dysgu ac addysgu yn nhermau codi safon cyrhaeddiad y plant;
- sicrhau bod datblygiad a pherfformiad y cynllun rheoli staff yn annog safon uchel o addysgu;
- monitro'r effeithiolrwydd y polisi dysgu ac addysgu trwy gyfrwng proses hunanwerthuso'r ysgol. Mae hyn yn cynnwys adroddiadau gan arweinyddion meysydd dysgu, adroddiadau'r pennaeth, cymryd rhan mewn teithiau ar waith rheolaidd ac adolygiad o'r sesiynau hyfforddiant mewn swydd.

**Rôl y Rhieni**

Credwn fod gan rieni rôl hanfodol er mwyn cynorthwyo eu plant i ddysgu. Rydyn ni'n gwneud popeth a allwn i roi gwybod i'r rhieni am ddatblygiad eu plant, trwy:

- gynnal cyfarfodydd cynnydd er mwyn esbonio'r strategaethau addysgu rhifedd, llythrennedd ac addysg iechyd:
- rannu gwybodaeth ar ddechrau bob tymor sy'n amlinellu'r pynciau bydd y plant yn eu hastudio yn ystod y tymor.
- ddarparu adroddiadau cyson sy'n rhoi gwybodaeth i rieni am ddatblygiad eu plentyn a'r ffordd ymlaen er mwyn datblygu ymhellach;
- esbonio sut y gall rhieni gynorthwyo gyda gwaith cartref. Rydyn ni'n awgrymu, er enghraifft, bod y plant yn y blynyddoedd cynnar yn cyd-ddarllen gyda'u rhieni, a bod y plant hynaf yn derbyn cymorth gyda'u prosiectau a'u gwaith ymchwil.

Credwn fod cyfrifoldeb gan rieni i gefnogi eu plant a'r ysgol er mwyn gweithredu'r polisïau. Fe fydden ni'n hoffi petai rieni:

- yn sicrhau bod record presenoldeb eu plant mor uchel â phosibl;
- yn sicrhau bod y plant yn dod i'r ysgol yn y wisg gywir ac yn dod â'r dillad ymarfer corff cywir;
- yn gwneud eu gorau i gadw'r plant yn ddigon iach i fynychu'r ysgol;
- yn hysbysu'r ysgol os oes materion y tu allan i'r ysgol a fyddai'n debygol o gael effaith ar ymddygiad y plentyn;
- yn hybu agwedd gadarnhaol tuag at ysgol a'r broses o ddysgu yn gyffredinol;
- yn cwblhau'r agwedd gadarnhaol tuag at ysgol a'r broses o ddysgu yn gyffredinol;
- yn cwblhau'r gofynion sy'n cael eu gosod allan yn y cytundeb cartref-ysgol.

**Cynllunio Cwricwlwm yr Ysgol**

- Mae gwaith cynllunio'r ysgol wedi codio gyda lliw er mwyn eglurder rôl y ddogfennaeth:
- Trosolwg Themâu a Chwricwlwm Eang, Cytbwys yr Ysgol [PORFFOR]
- Yn y ddogfennaeth hon, fe welwch brif benawdau'r hyn a ddysgir ym mhob Cam Cynnydd o dan deitlau'r chwe 'Maes Dysgu a Phrofiad'. Dyma yw sail yr holl gynllunio er mwyn sicrhau cysondeb a gwersi cyfoethog.
- Cynllunio Thema Integredig [OREN]
- Yn y ddogfen hon, cynllunnir gwersi'r pythefnos gyda ffocws y chwe 'Maes Dysgu a Phrofiad' ym mhob Cam Cynnydd. Mae pob gwers wedi cynllunio mewn manylder perthnasol a gwelwch wahaniaethu clir ar gyfer pob un wers. Mae pob gwers wedi selio ar y 'Pedwar Diben'. Gyda phob gwers, mae amcanion disgrifiadau dysgu wedi nodi o dan y golofn 'Camau Cynnydd' er mwyn rhoi ffocws asesu clir i'r wers.

- Tracio Fframweithiau'r Sgiliau Trawsgwricwlaidd [GWYRDD]
- 

  Yn dilyn ‘Cynllun Thema Integredig’ (Dogfen Oren), mae’r ddogfen hon yn mapio sgiliau ‘Gwrando’, ‘Siarad’, ‘Darllen’, ‘Trawsieithu’, ‘Ysgrifennu’, ‘Rhifedd’ a ‘Chymhwysedd Digidol’.

**Monitro ac Adolygu**

Mae cysondeb yn bwysig ym mhob agwedd o fywyd yr ysgol. Mae’r polisi hwn yn gosod disgwyliadau clir sy’n cefnogi dysgu plant. Dylid ei ddilyn mor gyson â phosibl ar draws yr ysgol gyfan.

Rydyn ni’n monitro'r addysgu yn rheolaidd gan ddilyn canllawiau ein polisi rheoli perfformiad a hefyd amserlen monitro. Defnyddir y ‘Fframwaith Rhagoriaeth mewn Dysgu ac Addysgu’ fel un modd o fesur ansawdd dysgu ac addysgu ar draws yr ysgol.

Rydyn ni’n ymwybodol o’r angen i adolygu’r polisi dysgu ac addysgu yn gyson, fel y gallwn ystyried datblygiadau newydd, newidiadau yn y cwricwlwm, datblygiadau mewn technoleg neu newidiadau yn amgylchfyd yr ysgol.  Byddwn yn adolygu’r polisi yn unol â’r patrwm yn y Cynllun Datblygu Ysgol.